# Adolygiad o gapiau diogelu gwasanaethau Ail Ddosbarth 2024

## Capiau prisiau arfaethedig ar gyfer gwasanaethau cyffredinol Ail Ddosbarth

**YMGYNGHORIAD:**


Dyddiad cyhoeddi: 26 Mehefin 2023

Dyddiad olaf ar gyfer derbyn ymatebion: 1 Medi 2023

# Cynnwys

## Adran

1. Trosolwg **Error! Bookmark not defined.**

# 1. Trosolwg

**Mae'r ddogfen hon yn nodi cynigion Ofcom ar gyfer capiau prisiau adwerthu ar wasanaethau post cyffredinol y Post Brenhinol i fod yn gymwys rhwng 2024 a 2029. Prif nod ein cynigion yw sicrhau bod gwasanaethau post cyffredinol yn dal yn fforddiadwy i ddefnyddwyr. Wrth ddatblygu'r cynigion hyn, rydym hefyd wedi ystyried effaith unrhyw gapiau ar gynaliadwyedd ariannol y rhwymedigaethau gwasanaeth cyffredinol (USO).**

Mae gwasanaethau post yn parhau i chwarae rhan allweddol yn ein cymdeithas. Mae bron pawb yn y DU yn defnyddio'r gwasanaethau hyn yn rheolaidd, megis i dderbyn nwyddau ar ôl siopa ar-lein, i gael gohebiaeth feddygol bwysig, neu i anfon cardiau at ffrindiau a pherthnasau.

Ar hyn o bryd, mae'r rhwymedigaethau gwasanaeth cyffredinol yn mynnu bod y Post Brenhinol yn danfon ac yn casglu llythyrau chwe diwrnod yr wythnos, a pharseli bum diwrnod yr wythnos, am bris fforddiadwy ac unffurf ar draws y DU. Dechreuodd Ofcom y gwaith o reoleiddio'r post yn 2011, ac yn 2012 fe wnaethom ni osod cap ar lythyrau Ail Ddosbarth a pharseli bach er mwyn sicrhau bod mynediad at wasanaethau post yn fforddiadwy i bob defnyddiwr. Y tro diwethaf i ni adolygu'r capiau hyn oedd yn 2018-19, a bydd y capiau presennol yn dod i ben ar 31 Mawrth 2024.

Rydym wedi dod i'r casgliad am y tro y dylai Ofcom barhau i gynnal cyfundrefn capiau diogelu i sicrhau bod defnyddwyr yn parhau i gael mynediad at wasanaethau post fforddiadwy. Rydym hefyd wedi dod i'r casgliad am y tro ein bod yn gallu symleiddio'r gyfundrefn o ystyried y pwysau cystadleuol ar y Post Brenhinol o ran parseli.

### Beth rydym yn ei gynnig – yn gryno

- **Cadw cap diogelu ar lythyrau mawr a safonol Ail Ddosbarth.** Y rheswm am hyn yw bod y Post Brenhinol yn parhau i fod bron yn fonopoli wrth ddarparu llythyrau ac ni allwn ddibynnu ar gystadleuaeth i sicrhau bod prisiau'n parhau'n fforddiadwy heb reolaeth ar y gwasanaethau llythyrau Ail Ddosbarth hyn.
- **Tynnu'r cap diogelu oddi ar barseli.** Rydym o'r farn nad oes angen cap diogelu ar wasanaethau parseli'r Post Brenhinol mwyach. Ymddengys fod cystadleuaeth yn y farchnad hon yn cyfyngu ar allu'r Post Brenhinol i godi prisiau i bob pwrpas, ac felly'n sicrhau eu bod yn dal yn fforddiadwy. Bydd yn dal yn ofynnol i'r Post Brenhinol osod un pris ar gyfer y gwasanaethau hyn ledled y DU.
- **Caniatáu i'r capiau diogelu ar lythyrau godi yn unol â chwyddiant (CPI), ond dim uwch.** Mae ein tystiolaeth yn dangos bod y prisiau presennol yn fforddiadwy i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr, ond bod cynnydd mewn termau real yn debygol o fod mewn perygl o'u gwneud yn anfforddiadwy i fwy o ddefnyddwyr, o ystyried y cynnydd mewn costau byw.
- **Creu un cap basged ar lythyrau mawr a safonol Ail Ddosbarth.** Bydd hyn yn rhoi ychydig mwy o hyblygrwydd masnachol i'r Post Brenhinol wrth osod prisiau rhwng llythyrau safonol a mawr ar yr amod nad yw pris y fasged (cyfartaledd pwysedig) yn codi gynt na CPI.
- **Parhau i gyfyngu'r capiau diogelu i wasanaethau llythyrau Ail Ddosbarth.** Nid ydym wedi nodi unrhyw dystiolaeth bod pryder ynghylch fforddiadwyedd mewn perthynas â gwasanaethau eraill o ystyried natur eu defnydd a'r mynediad amgen a ddarperir gan wasanaethau Ail Ddosbarth.

Dim ond crynodeb byr a syml sydd yn y trosolwg hwn o'r ddogfen. Mae'r cynigion rydym yn eu gwneud a'n rhesymeg ni wedi'u nodi yn y ddogfen lawn.

## Y camau nesaf

Rydym yn gwahodd ymatebion i'r cwestiynau a godwyd yn yr ymgynghoriad hwn, sydd wedi'u crynhoi yn Atodiad 4, erbyn 5pm ar 1 Medi 2023. Mae manylion ynghylch sut i ymateb i'r ymgynghoriad hwn wedi'u nodi yn Atodiad 1. Rydym yn bwriadu cyhoeddi ein datganiad a fydd yn nodi ein penderfyniadau ynghylch y capiau diogelu erbyn diwedd 2023.